



***Ysgol Uwchradd Gatholig ac  
Anglicanaidd  
Sant Joseff***

***Polisi Derbyn a Pholisi  
Gordanysgrifio***

Dogfen ymgynghoriad i ymgeiswyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018 – 19

Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethu Llawn – 20 Mawrth 2017

# Gwneud cais am le yn Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff

## Derbyn o'r Cynradd i'r Uwchradd

Wrth wneud cais am le yn Ysgol Sant Joseff, dylai rhieni sicrhau eu bod yn cwblhau'r camau canlynol:

- Pecyn Ymgeisio Ysgol Sant Joseff - gellir cael un o'r rhain o'r ysgol neu drwy wefan yr ysgol [www.st-joseph.wrexham.sch.uk](http://www.st-joseph.wrexham.sch.uk). Mae'r pecyn yn cynnwys dwy ffurflen ar wahân. Ffurflen Gais yw'r gyntaf, a'r rhiant neu'r gwarchodwr a ddylai ei chwblhau. Ffurflen Wybodaeth Atodol yw'r ail ffurflen, a'r Gweinidog yn eich man addoli a ddylai lewni hon. Os nad ydych yn gallu cysylltu a Gweinidog neu Arweinydd Crefyddol, anwybyddwch y ffurflen hon. Dylid dychwelyd y dogfennau at Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff erbyn dydd Gwener 10 Tachwedd 2017.

## **A**

- Proses Ymgeisio'r Awdurdod Lleol - mae'r proses o wneud cais ar-lein a waith gan yr Awdurdod Lleol gellir cael manylion ynglyn â hyn ar wefan Cyngor Sir Wrecsam, [www.wrecsam.gov.uk](http://www.wrecsam.gov.uk). Fel arall, gall rhieni wneud cais yn uniongyrchol i Ganolfan Galw Wrecsam am ffurflenni cais papur yr Awdurdod Lleol.

Mae'n bwysig fod y **DDWY** broses yma yn cael eu cwblhau a bod y ffurflen gais i Ysgol Sant Joseff yn cael ei dychwelyd i'r ysgol ac nid i'r Awdurdod Lleol. Bydd y wybodaeth a dderbynnir ar y dogfennau hyn yn cynorthwyo'r Panel Derbyn.

## **Symud ar Ganol Cyfnod**

Pan fydd rhieni'n dymuno symud eu plentyn o ysgol uwchradd i Ysgol Sant Joseff, fe'u cynghorir i gysylltu'n uniongyrchol a'r ysgol.

## **Polisi Derbyn**

Cytunwyd I sefydlu un Panel Derbyn i ymdrin â'r holl geisiadau am le yn yr ysgol hon, er mwyn cydnabod yr ysbryd o undod a phartneriaeth sydd wedi bod yn nodweddiadol o dwf yr ysgol. Bydd cynrychiolwyr o'r ddau enwad yn ffurfio'r Panel.

Nifer derbyn yr ysgol ydy 145 ar gyfer pob grwp blwyddyn.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cynnig derbyn 145 o ddisgyblion, Mae Ysgol Sant Joseff yn ysgol gynhwysol gyda darpariaeth adnoddau ar gael. Ni ddewisir ar sail gallu na chymhwyster.

Bydd y Llywodraethwyr yn ystyried ceisiadau, ac yn rhoi lle i 145 o ddisgyblion, yn unol â'r dystiolaeth o ymrwymiad y rhieni a'r plant i'r addysg enwadol gyfun a gynigir yn Ysgol Sant Joseff. Dyrennir lleoedd yn unol â'r gymhareb sylfaenol a sefydlwyd pan ffurfiwyd yr ysgol: bydd hyd at 60% o'r disgyblion a dderbynnir o'r traddodiad Catholig a hyd at 40% o'r disgyblion a dderbynnir o'r traddodiad Anglicanaidd. Mae'r

Llywodraethwyr yn cydnabod bod aelodau o gymunedau enwadau Cristnogol eraill a chymunedau ffydd eraill wedi bod, ac yn parhau i fod, yn rhan o fywyd Sant Joseff ac maent wedi ymrwymo i gynnal hyn o fewn cyfyngiadau'r gwir niferoedd sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol yn unrhyw flwyddyn.

Os bydd y Corff Llywodraethu'n derbyn 145 neu lai o geisiadau gan ddisgyblion, fe gynnigir lle iddynt i gyd yn yr Ysgol I bob un ohonynt.

Rhoddir y flaenoriaeth gyntaf i geisiadau a gyflwynir erbyn y dyddiad cau sydd wedi'i gyhoeddi, sef 10 Tachwedd 2017. Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r un meini prawf a gyhoeddwyd, ond, os oes mwy o geisiadau na lleoedd, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y ceisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau. Rhoddir ystyriaeth i geisiadau a gyflwynwyd ar ôl y dyddiad hwn lle gellir profi y tu hwnt i bob amheuaeth resymol bod rheswm eithriadol am fethu cadw at y dyddiad.

Pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, ystyrir y ceisiadau am y 145 lle sydd ar gael gan y Llywodraethwyr yn y drefn flaenoriaeth a nodir isod.

### **Meini prawf pan fo gormod o geisiadau**

Bydd pob cais a gyflwynwyd erbyn y dyddiad cau sy'n dangos ar y ffurflen gais gyffredin mai dymuniad y rhieni ydy cael lle ar gyfer addysg enwadol gyfun yn Ysgol Sant Joseff yn cael eu hystyried yn ôl y drefn flaenoriaeth isod.

Mae'n rhaid i'r rhieni/gwarchodwyr roi tystiolaeth a gwybodaeth ar y ffurflen gais. Lle bo modd, dylid rhoi copïau o dystysgrifau bedyddio. Mae'n rhaid i'r Gweinidog gofnodi tystiolaeth a gwybodaeth gefnogol gan yr Offeiriad / Gweinidog / Arweinydd Crefyddol teuluol (os yw'n berthnasol) ar y Ffurflen Wybodaeth Atodol sydd gyda'r ffurflen gais. Wrth ystyried ceisiadau, bydd y plant sydd wedi bod yn mynychu am y nifer fwyaf o flynyddoedd yn cael blaenoriaeth.

#### **1. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol**

(Gweler Tudalen 6 am ddiffiniad o Blant sy'n derbyn Gofal)

#### **2. Plant o'r Traddodiadau Catholig a'r Eglwys yng Nghymru**

Unwaith y bydd lleoedd wedi eu dyrannu i blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol, bydd gweddill y lleoedd yn cael eu rhannu yn ôl y gymhareb sylfaenol a nodwyd wrth sefydlu'r ysgol: bydd hyd at 60% o'r disgyblion a dderbynnir o'r traddodiad Catholig a hyd at 40% o'r disgyblion a dderbynnir o'r traddodiad Anglicanaidd. Os na dderbyniwyd ceisiadau gan blant sy'n derbyn gofal, bydd y 145 o leoedd yn cael eu rhannu gan ddefnyddio'r un gymhareb 60% / 40%. Bydd hyn yn golygu 87 o blant o'r traddodiad Catholig a 58 o blant o'r traddodiad Anglicanaidd.

<b>Catholig</b>	<b>Yr Eglwys yng Nghymru</b>

<p>a) Plant wedi'u bedyddio yn y ffydd Gatholig mewn ysgolion cynradd Catholig yn Awdurdod Lleol Wrecsam.</p> <p>b) Plant sydd wedi'u bedyddio yn y ffydd Gatholig y mae eu Plwyf yn nalgylch Esgobaeth yr ysgol.</p> <p>(c) Plant eraill sy'n mynychu ysgolion cynradd Catholig.</p> <p><i>Os yw'r niferoedd yn fwy na'r nifer o lefydd sydd ar gael ym mhob categori, bydd y meini prawf isod yn cael eu rhoi ar waith yn y drefn ganlynol, i bennu pwy y gellir ei dderbyn;</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Tystiolaeth bod y plentyn a'r teulu'n cymryd rhan yn y sacramentau.</li> <li>2. Tystiolaeth bod y plentyn a'r teulu'n cymryd rhan yn weithgar yng nghymuned yr eglwys.</li> <li>3. Nifer y blynyddoedd y bu'r plentyn yn mynychu ysgol gynradd Gatholig sy'n bwydo'r ysgol uwchradd hon.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>a. Plant sydd wedi'u bedyddio y mae eu teuluoedd yn mynychu Eglwys Anglicanaidd yn ardal Awdurdod Lleol Wrecsam. Noder nad yw hyn yn golygu addoli yn yr ysgol</li> <li>b. Plant sy'n mynychu ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru</li> </ol> <p><i>Os yw'r nifer sy'n gwneud cais am le yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf isod, yn y drefn ganlynol, i bennu pwy y gellir ei dderbyn:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Tystiolaeth gefnogol gan y Ficer / Gweinidog am weithgarwch bresennol y plentyn a'r teulu yn yr eglwys y maent yn ei mynychu</li> <li>2. Tystiolaeth gefnogol gan y Ficer / Gweinidog am bresenoldeb y plentyn a'r teulu yn yr eglwys</li> <li>3. Nifer y blynyddoedd y mae'r plentyn wedi mynychu ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru</li> </ol>
--	---

Os bydd unrhyw lleoedd yn weddill ar ol dyrannu lleoedd o dan bwyntiau 1 a 2, byddant yn cael eu cyfuno a'u dyrannu i ddisgyblion gan ddefnyddio'r meini prawf isod pan fo gormod o geisiadau, sydd wedi'u trefnu yn ol eu blaenoriaeth.

**3. Plant o deuluoedd sy'n sy'n rhan weithredol o gymunedau eglwysig lleol enwadau Cristnogol eraill ac sy'n aelodau o Eglwysi Ynghyd yng Nghymru**

*Ar gyfer y llefydd sydd ar gael, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu rhoi ar waith, yn eu trefn, i benderfynu pwy y gellir ei dderbyn;*

- a. Tystiolaeth fod y plentyn a'r teulu cymryd rhan weithredol sylweddol i gefnogi'r eglwys, fel mynychu gwasanaethau'n wythnosol ac ymrwymadau eraill.
- b. Tystiolaeth fod y plentyn a'r teulu'n cymryd rhywfaint o ran weithredol i gefnogi'r eglwys, fel mynychu gwasanaethau bob mis neu'n llai rheolaidd.
- c. Nifer y blynyddoedd y mae'r plentyn a'r teulu wedi bod yn cefnogi'r eglwys.

**4. Plant o gymunedau ffydd eraill.**

*Ar gyfer y lleoedd sydd ar gael, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu rhoi ar waith, yn eu trefn, i benderfynu pwy y gellir ei dderbyn;*

- a. *Tystiolaeth o weithgarwch sylweddol gan y plentyn a'r teulu yn y man addoli cefnogol*
- b. *Tystiolaeth o rywfaint o weithgarwch gan y plentyn a'r teulu yn y man addoli cefnogol*
- c. *Tystiolaeth o ymrwymiad i gymuned ffydd gan y plentyn a'r teulu*

**5. Plant o deuluoedd sy'n aelodau, ond nad ydynt yn aelodau gweithredol, o gymunedau ffydd lleol.**

*Ar gyfer lleoedd sydd ar gael, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu rhoi ar waith, yn eu trefn, i benderfynu pwy y gellir ei dderbyn;*

- a. *Tystiolaeth o rywfaint o weithgarwch gan y plentyn a'r teulu yn yr eglwys gefnogol*
- b. *Nifer y blynyddoedd y mae'r plentyn a'r teulu wedi bod ynghlwm â'r eglwys gefnogol*

**6. Plant na ellir eu derbyn dan gategori 1 i 5, ond sydd â brawd neu chwaer\* sy'n mynychu'r ysgol ar adeg eu derbyn.**

*Defnyddir y maen prawf isod, os oes lleoedd ar gael:*

*Y ffactor a fyddai'n penderfynu, fyddai'r nifer fwyaf o flynyddoedd y byddent yn rhan o gymuned yr ysgol gyda'l gilydd.*

*\*Gweler tudalen 6 am ddiffiniad o frawd neu chwaer*

**7. Plant nad ydynt yn medru cael eu derbyn o dan gategorïau 1 – 6, nad ydynt wedi darparu unrhyw dystiolaeth gan eu Hoffeiriad / Gweinidog / Arweinydd Crefyddol ynglŷn â'u hymrwymiad ffydd, neu sydd wedi datgan nad oed ganddynt ymrwymiad ffydd, ond sydd wedi dweud y byddent yn hoffi lle yn Ysgol Sant Joseff.**

**Penderfynu**

Os ceir sefyllfa lle bydd angen penderfynu i bwy y dylid cynnig lle, bydd y Llywodraethwyr yn derbyn yr ymgeiswyr sy'n byw agosaf at yr ysgol. Os oes dau neu fwy o ymgeiswyr yn gyfartal o dan unrhyw un o'r meini prawf, yna defnyddir y drefn benderfynu, a rhoddir blaenoriaeth i'r plentyn sy'n byw agosaf. Bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethwyr yn mesur pa ymgeisydd sy'n byw agosaf gan ddefnyddio system fapio benodol System Gwybodaeth Ddaearyddol yr Awdurdod Lleol. Mesurir o ddrws ffrynt y cartref at giat agosaf yr ysgol, gan ddefnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf. Mewn achosion pan fo'r pellter yn gyfartal, fel fflat mewn bloc

o fflatiau, byddai'r fflatiau ar y llawr gwaelod yn cael eu hystyried yn nes na fflatiau ar loriau uwch.

### **Cyfeiriad Cartref**

Y 'Cyfeiriad Cartref' fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebu, sy'n cyfateb i'r man y telir 'Budd-dal Plant'. Mewn achosion lle bo amheuaeth ynglyn ar cyfeiriad, neu lle bo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teulu sydd wedi gwahanu) neu amgylchiadau perthnasol eraill, rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r cyfeiriad cartref i'r Llywodraethwyr i gadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddiwyd ar y ffurflen gais. Y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar ddiwedd y cyfnod dyrannu a bennwyd gan yr Awdurdod Lleol Dylai teuluoedd sydd ar fin symud tŷ ddarparu:

- a) llythyr Cyfreithiwr yn cadarnhau cwblhau'r broses o brynu eiddo; neu
- b) copi o'r cytundeb rhentu presennol, wedi'i lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
- c) yn achos personel sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Arfog E.M, ar hyn o bryd, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu hanfon i wasanaethu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad neu'r Bencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth.

### **Nodiadau:**

**PLANT SY'N DERBYN GOFAL:** Diffinnir Plentyn sy'n derbyn gofal fel un 'sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol gan Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 y Ddeddf Plant. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dilyn rheoliadau Lywodraeth Cymru i sicrhau fod buddiannau'r plant sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu hamddiffyn. Rhoddir blaenoriaeth i'r plant yma ym meini prawf ar gyfer gormod o geisiadau gan bob ysgol, gan gynnwys ceisiadau y tu allan i'r cyfnod derbyn arferol. Dylai'r rhiant corfforaethol perthnasol lofnodi'r ffurflenni cais ar gyfer Plant sy'n derbyn gofal.

**BRAWD NEU CHWAER:** Bydd y trefniadau derbyn yn sicrhau na chaiff plant o enedigaethau lluosog eu gwahanu. Bydd brodyr a chwirydd, p'un a ydynt yn frodyr/chwirydd llawn, hanner brawd/chwaer, llys frawd/chwaer neu frawd neu chwaer maeth, yn cael eu hystyried yn berthnasol os ydynt yn byw gyda'i gilydd yn yr un uned deuluol ar yr un aelwyd ac yn yr un cyfeiriad, a lle byddai'r plentyn hŷn yn parhau i fod wedi'i gofrestru yn yr ysgol pan fyddai'r plentyn iau yn gymwys i fynychu'r ysgol. Ni fydd plant sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, fel cefndryd a chyfnitherod, yn cael eu trin fel siblingiaid.

**APELIO:** Os yw'r Llywodraethwyr yn anfon llythyr yn datgan nad oes modd cynnig lle, gall rhiant gyflwyno apêl. Mae'n rhaid i riant/warchodwr gyflwyno'r apêl yn ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr yn yr ysgol cyn y dyddiad cau a nodir yn y llythyr. Yna bydd Panel Apêl annibynnol, wedi'i sefydlu ar ran Esgobaeth Wrecsam ac Esgobaeth Llanelwy, yn gwrandao ar yr apêl.

**GRWPIAU BLWYDDYN ERAILL:** Mae dyrannu lle'n amodol ar y lleoedd sydd ar gael, a defnyddir yr un meini prawf derbyn.

## **TYNNU LLE A GYNIGIWDYD GAN Y LLYWODRAETHWYR YN ÔL:**

Dylai rhieni nodi, petai'r Llywodraethwyr yn canfod tystiolaeth o gais twyllodrus neu fwiadol gamarweiniol gan riant, a arweiniodd at wrthod lle i ymgeisydd â hawl gryfach i le yn yr ysgol, gellid tynnu'r cynnig yn ei ôl. Lle bo cynnig yn cael ei dynnu'n ei ôl ar sail gwybodaeth gamarweiniol, ystyrir y cais o'r newydd, a chynigir hawl apelio os yw lle'n cael ei wrthod. Gwneir y datganiad hwn yn unol â'r 'Cod Derbyn i Ysgolion, Cod Statudol, Dogfen Rhif 005/2013, tudalen 26 paragraff 3.40 a 3.41.

## **RHESTRAU AROS:**

### **Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd o'r Ysgol Gynradd**

Gall rhieni a oedd yn aflwyddiannus wrth ymgeisio roi enw eu plenty ar restr aros. Bydd y rhestr yn cael ei chadw tan 30 Medi ym mlwyddyn y cais. Os bydd unrhyw leoedd ar gael cyn i'r tymor ddechrau ym mis Medi, yna bydd y Panel Derbyniadau yn ystyried yr enwau hynny sydd ar y rhestr aros. Os bydd mwy o enwau ar y rhestr aros na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y Llywodraethwyr yn defnyddio'r meini prawf pan fo gormod o geisiadau sydd yn cael eu halinellu yn y polisi hwn. Unwaith y daw'r dyddiad hwn, bydd y rhestr aros yn cael ei dinistrio.

### **Trosglwyddo Disgyblion yng Nghanol Cyfnod**

Nid yw'r ysgol yn cadw rhestrau aros ar gyfer grwpiau eraill.